




CANYLYNIAD A BEIRNIADAETH LWYFAN 2022

- 1.Un Bach Arall gan Cul Sec
- 2.Sgota gan Madryn
- 3.Mwg o Gariad gan L&M


Pleser oedd cael beirniadu'r Fedal Ddrama eleni. Daeth deuddeg drama fer i law, a nifer fawr ohonynt yn wreiddiol, yn ffres, yn afaelgar ac yn deimladwy. Mae'n glir fod dyfodol y ddrama yng Nghymru yn ddiogel a llongyfarchiadau mawr i chi gyd.


Eleni roedd y dasg ychydig yn wahanol i'r arfer – sef ysgrifennu drama i ddau actor yn unig, a heb fod yn hirach na chwarter awr. Tybed a wnaeth y cyfyngiadau yma arwain at safon uwch o ysgrifennu? A thybed a wnaeth canolbwyntio ar un neu ddau gymeriad yn unig arwain at gymeriadau cyfoethog a chrwn?

Fe fyddem wedi bod yn fwy na hapus i wobrwyo'r dair ddrama sydd wedi dod i'r brig eleni sef Mwg o Gariad gan L&M, Sgota gan Madryn a Un Bach Arall gan Cul Sec. Dymunwn hefyd roi canmoliaeth uchel i Ti'n Ddel gan Mercher, gyda'r ddrama bwerus yn ymdrin â chyrrff a delwedd merched.



Mae Mwg o Gariad gan L&M yn llwyddo i gyfleu ansicrwydd dyddiau cynnar y Clo Mawr, yr ymateb i'r cyfyngiadau ar ein bywydau, y berthynas arbennig rhwng merch ysgol a'i nain a chreu portread o gymuned a'r cyfan oll mewn cwta bum tudalen. Mae yna hiwmor, tynerwch, cariad, colled, diniweidrwydd a thrasedi yma. Monolog ydi hi ond drwy eiriau Magi mae'r dramodydd wedi llwyddo i greu nifer o gymeriadau crwn a chyfoethog. Doeddem ddim yn gwblw sicr a oedd amgylchiadau'r farwolaeth yn taro deuddeg ac efallai y byddai ychydig o waith ymchwil yn fuddiol yna. Ond dyma awdur cyffrous sydd yn sicr yn dangos cryn botensial.





Monolog hefyd yw Sgota gan Madryn wrth i Joe drafod ei fagwraeth ansefydlog gyda'i therapydd. Mae yma ddawn ysgrifennu arbennig yn disgleirio yma, gyda iaith sydd yn gyfoethog ac eto'n gwbl naturiol. Mae gan y dramodydd glust am rhythm geiriau a dawn dweud sy'n wreiddiol a chofiadwy. Roedd ein calonau yn gwaedu dros Joe, ac yn dyheu i'w weld yn dod i delerau gyda'i orffennol. Doedd y diweddglo ddim yn gwbl annisgwyl ac fe hoffem weld ychydig mwy o ddatblygiad i daith emosiynol Joe. Serch hynny, dyma ddrama deimladwy a wnaeth argraff arnom ni'n dwy.

Dau ffrind yn eu harddegau yn cael sgwrs dros beint sydd gennym yn Un Bach Arall gan Cul Sec. Mae Lewys wedi mynd i'r Brifysgol tra mae Dan wedi aros adref a'u bywydau bellach yn wahanol iawn. Mae'r hiwmor a'r tynnu coes yn clecian o'r cychwyn cyntaf a'r ddialog yn llifo mor rhwydd â'r peintiau o gwrw yn eu dwylo.

Ond mae yna lawer mwy yn perthyn i'r ddrama hon. Mae'r is-destyn yn siarad cyfrolau am frwydr mewnol Dan. Mae yna wacter, gor-yfed a bywyd di-gyfeiriad yma, i gyd o dan haen o ddialog doniol, bywiog a real. Nid oeddem wedi ein llwyr argyhoeddi gyda'r newid arddull ar ddiwedd y ddrama wrth i Lewys siarad yn uniongyrchol gyda'r gynulleidfa. Ond serch hynny, mae ffawd Dan yn ergyd bwerus. Dyma ddrama sydd yn ymdrin yn gelfydd â iechyd meddwl dynion ifanc, a phwysigrwydd siarad yn agored. Mae'n waith ffres ac egniol ac felly mae'n bleser cyhoeddi mae Cul Sec sy'n mynd â'r wobr eleni.

